Datganiad i'r Wasg: o Fferm Treberfedd, Ceredigion, Cymru.

I’w ryddhau ar unwaith.

Prosiect codi arian yn Fferm Treberfedd i ail-doi to gwellt ffermdy brodorol Cymreig rhestredig Gradd II, yr olaf o'i fath.

***01.04.2024***

# Raising The Roof

Mae fferm fechan yng Ngheredigion wedi lansio ymgyrch codi arian i adfer y to gwellt ar hen ffermdy treftadol rhestredig Gradd II Cymreig pwysig.

Mae perchennog y fferm organig fechan, Jack Cockburn, yn gwahodd pobl i addo cefnogaeth drwy brynu talebau am wyliau yn y dyfodol yn y Bwthyn To Gwellt yn Nhreberfedd yng Ngheredigion.

Am yr arian a roddir, bydd pob unigolyn yn derbyn taleb am y swm cyfatebol tuag at wyliau neu seibiant byr ar y fferm sy'n cynnig llety gwyliau drwy gydol y flwyddyn.

Y targed codi arian yw £25,000.

Bydd yr arian a godir yn mynd tuag at gyflogi pen-töwr Cymreig i ail-doi'r bwthyn a gwellt yn llwyr gan ddefnyddio sgiliau traddodiadol a chyrs dŵr a gynaeafwyd yng Nghymru. Bydd y pen-töwr hefyd yn dysgu'r sgiliau gwaith toi gwellt traddodiadol hir oesol yma i brentisiaid wrth iddo weithio.

"Rydyn ni’n gwahodd pobl i chwarae rhan mewn adfer darn pwysig o dreftadaeth Gymreig a derbyn taleb i aros yn y bwthyn hyfryd hwn am wyliau unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau," meddai Jack, sy’n ffermio Treberfedd.



Mae'r Bwthyn To Gwellt ar Fferm Treberfedd mewn angen dybryd am rywfaint o gariad a gofal; 23 mlynedd ers ei adferiad diwethaf, mae'r to wedi gweld dyddiau gwell ac mae'n bryd ei newid.

***Pam mae'r ffermdy gwreiddiol hwn yn Nhreberfedd yn bwysig?***

Mae'r bwthyn to gwellt yn ffermdy Sioraidd rhestredig Gradd II (un o'r olaf o'i fath!) a hyd yn oed yn cynnwys paentiadau wal gwreiddiol o'r 1700au.

Fe'i disgrifiwyd gan Cadw, sy'n gofalu am adeiladau hanesyddol Cymru, fel "ffermdy brodorol o'r cyfnod Sioraidd hwyr sy'n anarferol o gyflawn. Dyma oroesiad prin iawn o'r math hwn o adeilad rhanbarthol gyda'i gymeriad wedi cael ei gadw. Ychwanegiadau o ganol / diwedd y 19eg ganrif sydd wedi'u cadw'n dda, a'r cyfan yn grŵp hynod ddeniadol. "

Dywedodd Becky Wood o Fferm Treberfedd:

"Mae gwesteion sy'n dod i aros yma yn dweud ei fod fel camu'n ôl mewn amser. Mae'r Bwthyn To Gwellt yn rhan bwysig iawn o hanes ein fferm ac, oherwydd hyn, rydyn ni'n awyddus iawn i barhau i ddefnyddio deunyddiau naturiol a chynaliadwy a dulliau traddodiadol i'w ail-doi â gwellt yn ôl i'w hen ogoniant."

Bydd eich rhodd yn prynu taleb am wyliau yn y bwthyn deniadol hwn.

"Bydd pob taleb a brynir yn helpu i adfer treftadaeth Gymreig ac yn cefnogi sgiliau gwledig traddodiadol, gan sicrhau y bydd yr adeilad hardd hwn yn cael ei gadw am genedlaethau i ddod," meddai Jack.



Mae'r Bwythyn yn barod i'w ail-doi â gwellt yn ôl i'w hen ogoniant.

Mae'r bwthyn to gwellt yn ffermdy Sioraidd rhestredig Gradd II (un o'r olaf o'i fath!) a hyd yn oed yn cynnwys paentiadau wal gwreiddiol o'r 1700au.





Mae Ffermwr Jack yn arwain y prosiect adferiad gyda tim o staff.

***Sut alla i addo arian a derbyn fy nhaleb?***

Mae gennym dudalen cyllido torfol (crowdfunder) www.crowdfunder.co.uk/p/raising-the-roof-at-treberfedd lle gallwch addo rhoddion o £50 - £500. Gall cyfranogwyr ddewis derbyn taleb gwyliau neu adael arian fel rhodd.

Unwaith y bydd rhodd yn cael ei wneud, bydd taleb gwyliau o'r swm cyfatebol yn cael ei rhoi. Bydd y talebau yn ddilys am bum mlynedd.

Ewch i [www.treberfedd.co.uk](http://www.treberfedd.co.uk) i archebu a defnyddio'r cod yn eich taleb i gymhwyso'ch gostyngiad.

***Pryd ydyn ni'n gobeithio cwblhau'r prosiect?***

Bydd ein Cyllido Torfol yn mynd yn fyw ar 01.04.2024. Rydyn ni'n gobeithio cwblhau'r prosiect codi arian erbyn y gaeaf 2024.

***Ynglŷn â Fferm Treberfedd – hanes diweddar***

Mae teulu Jack wedi bod yn ffermio yn Nhreberfedd ers dros 20 mlynedd. Ers 1999, mae'r fferm wedi bod yn gyrchfan wyliau boblogaidd gyda dwy ysgubor wedi'u haddasu, y bwthyn to gwellt gwreiddiol, y ffermdy modern, a'r cabanau eco a glampio.

Ym 1999, roedd y bwthyn to gwellt yn adfail a'r perchennog blaenorol wedi ei adael. Yn y flwyddyn 2000, aeth Jim, tad Jack, ati i gyflogi'r adeiladwr lleol, Euros Lewis, a'r pensaer, Huw Davies, i adfer y bwthyn yn ôl i'w hen ogoniant, gan arbed darn pwysig o dreftadaeth ffermio yng Nghymru.

Mae bythynnod gwyliau a chabanau eco Fferm Treberfedd yng nghanol gorllewin Cymru, dim ond 15 munud i ffwrdd o draethau tywodlyd gwych Bae Ceredigion a threfi harbwr bach fel Aberaeron a Chei Newydd. Mae gan y fferm olygfeydd eang o'i lleoliad ar ben y bryn, gan edrych dros Ddyffryn Aeron a thua Mynyddoedd Cambria.

***Cynaliadwyedd a Natur***

Mae'r bythynnod gwyliau a'r cabanau yn Nhreberfedd wedi'u hamgylchynu gan ddolydd a choetir organig. Mae'r fferm wedi'i hardystio yn organig ers 18 mlynedd, sy'n golygu na ddefnyddir plaladdwyr na gwrtaith cemegol ar y tir. Mae teulu Jack wedi plannu dros 19,000 o goed llydanddail ar y fferm ac wedi creu teithiau cerdded natur i ymwelwyr eu mwynhau. Mae'r llety gwyliau yn cael ei bweru'n rhannol gan dyrbin gwynt a phaneli solar y fferm ei hun. Mae tir y fferm yn gartref i lawer o rywogaethau o fywyd gwyllt ac mae ar agor i westeion sy'n aros ar y fferm ei grwydro. Mae'r fferm hefyd yn gwneud ei rhan yn y gwaith o warchod bridiau prin drwy gadw brîd lleol prin o ddefaid, y 'Llanwenog', ynghyd â gwartheg Henffordd traddodiadol.

***Mwy am hanes y ffermdy Cymreig arbennig hwn***

Adeiladwyd y Bwthyn To Gwellt sy'n sefyll yn Nhreberfedd heddiw rywbryd cyn neu yn ystod y 1600au.

Ym 1802, cafodd y bwthyn un llawr ei ymestyn a'i wella, gan greu gofod mwy gyda ffrynt Sioraidd wedi'i fodelu'n hyfryd, simneiau cymesur, a'r un to gwellt sydd gennym heddiw.

Fe'i rhestrwyd yn Radd II ym 1996 fel ffermdy brodorol Sioraidd anarferol o gyflawn – goroesiad prin iawn o'r math hwn o adeilad rhanbarthol gyda'i gymeriad cadwedig. Dyma un o'r olaf o'i fath, mae'n debyg.

Yn 2002, datgelodd gwaith adfer ar y tŷ rai murluniau yn dyddio'n ôl i tua 1650. Cafodd y murluniau eu paentio gan ddefnyddio pigmentau sy'n deillio o blanhigion mewn arddull motiff blodeuol a oedd yn ffasiynol iawn yn yr 17eg ganrif.

Ceir enghreifftiau tebyg sy'n dyddio'n ôl i'r un cyfnod ar waliau'r eglwys yn ne a dwyrain Lloegr a'r cyffiniau. Mae'n ddigon posibl bod y murluniau wedi cael eu creu gan artist teithiol wrth iddo fynd trwy Ddyffryn Aeron. Câi'r artist hwn ei gyflogi i baentio waliau mewnol cartrefi pobl. Mae'r murluniau bellach yn oroesiad prin iawn, yn enwedig yn ne-orllewin Cymru.

***Cyswllt:***

E-bostiwch info@treberfedd.co.uk neu ffoniwch Jack ar 07970081432 am fwy o wybodaeth.

Lluniau – copiau mwy ar gais.